| | |
|---|---|
| CYFARFOD | Y CYNGOR |
| DYDDIAD | 28AIN CHWEFROR, 2013 |
| PWNC | CYFLOGAU AELODAU |
| AWDUR | Cynghorydd Stephen Churchman,<br>Cadeirydd y Pwyllgor Uwch Gyflogau Aelodau |

**CEFNDIR**

1. Penderfynodd y Cyngor yn ei gyfarfod ar y 17eg o Fai, 2012 i ddyrannu 16 o'r 18 uwch - gyflog sy'n bosib eu dyrannu i aelodau. Dyrannwyd yr uwch-gyflogau fel a ganlyn -
   - Arweinydd y Cyngor a hyd at 9 aelod o'r Cabinet (gan gynnwys unrhyw Ddirprwy Arweinydd),
   - Cadeiryddion y 3 Pwyllgor Craffu,
   - Cadeiryddion y Pwyllgor Archwilio, Pwyllgor Cynllunio a Phwyllgor Trwyddedu.

2. Yn ei gyfarfod ar y 6ed o Ragfyr, 2012 penderfynodd y Cyngor

   *"ddyrannu uwch gyflog i Arweinydd yr wrthblaid fwyaf am weddill blwyddyn bresennol y Cyngor"*

   Golyga hyn fod 17 o'r 18 uwch-gyflog felly wedi eu dyrannu.

3. Yn yr un cyfarfod, penderfynodd y Cyngor hefyd i

   *"sefydlu pwyllgor arbennig gydag aelodaeth o'r fainc gefn a ddim i gynnwys cadeiryddion pwyllgorau, ar sail cydbwysedd gwleidyddol, i edrych ar elfen gwaith cadeiryddion y pwyllgorau eraill a chyflwyno argymhelliad i'r Cyngor ar 28 Chwefror 2013".*

4. Sefydlwyd Pwyllgor Uwch Gyflogau ar sail cyd-bwysedd gwleidyddol o aelodau mainc gefn nad oeddent yn Gadeiryddion nac yn is-Gadeiryddion ar unrhyw bwyllgor.

5. Cyfarfu'r pwyllgor ar 22ain o Ionawr, 2013 i ystyried gwybodaeth a gyflwynwyd ar gyfer y pwyllgorau eraill o dan sylw, sef Y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, Pwyllgor Iaith, Pwyllgor Apelau Cyflogaeth, Pwyllgor Pensiynau a'r Pwyllgorau Ardal.

6. Wrth geisio dod i benderfyniad, bu'r pwyllgor yn bwyso a mesur yr ystyriaethau a ganlyn:

- Pwysau gwaith
- Pwysigrwydd y rôl i gyd-aelodau
- Rôl arweiniol a datblygol y pwyllgor

7. Rhannwyd gwybodaeth gyda'r Pwyllgor ar nifer cyfarfodydd, gofynion gan swyddogion y tu allan i gyfarfodydd y Pwyllgor, Rôl y Cadeirydd, a gofynion pellach y tu allan i gyfarfodydd y Pwyllgor (ee hyfforddiant a mynychu cyfarfodydd a seminarau). Gweler **Atodiad 1**.

8. Nododd aelodau'r Pwyllgor ei bod yn anodd iawn asesu yn gywir ar hyn o bryd gan fod ambell bwyllgor yn parhau i ddatblygu a'r gofynion yn newid / newydd. Nodwyd hefyd fod aelodau'r Pwyllgor wedi ystyried y dasg yn un anodd iawn wrth geisio cymharu swyddogaeth Cadeiryddion y pwyllgorau gwahanol.

9. Fodd bynnag, yn y diwedd, daethpwyd i'r casgliadau a ganlyn:

- Na fyddai'n briodol dyranu'r un uwch gyflog sy'n weddill i Gadeirydd Pwyllgor Ardal oherwydd bod tri ohonynt ac mai dim ond un uwch gyflog sy'n weddill. Yn ogystal, nid yw'r Cyngor yn gwneud penderfyniad ar ddyfodol y Pwyllgorau Ardal tan y cyfarfod hwn.
- Ni fyddai'n briodol ystyried dyranu'r uwch gyflog sy'n weddill i'r Pwyllgor Pensiynau yn rhannol gan bod darpariaethau'r Pwyllgor Pensiynau yn wahanol i weddill Pwyllgorau'r Cyngor. Yn ogystal, roedd angen ymchwilio i weld a fyddai modd cydnabod y rôl hynny y tu allan i drefniadau uwch gyflogau'r Cyngor.
- Pwyso a mesur y gweddill o'r pwyllgorau y gellid eu hystyried yn erbyn y ffactorau a'u gosod mewn trefn yn erbyn y ffactorau hyn.

| FFACTOR | CYNTAF | AIL | TRYDYDD |
|---|---|---|---|
| Pwysau gwaith | Pwyllgor Apeliadau Cyflogau | Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd | |
| Pwysigrwydd y rôl i gyd aelodau | Pwyllgor Apeliadau Cyflogau | Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd | |
| Rôl arweiniol a datblygol | Pwyllgor Apeliadau Cyflogau / Pwyllgor Iaith | | Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd |

10. Yn sgil yr uchod, casgliad y Pwyllgor oedd i argymell mai Cadeirydd y Pwyllgor Apelau Cyflogaeth ddylai dderbyn yr uwch gyflog sy'n weddill.

ARGYMHELLIAD

11. Argymelliad y Pwyllgor felly yw y dylid dyrannu'r uwch gyflog sy'n weddill i Gadeirydd y Pwyllgor Apelau Cyflogaeth, ond ei adolygu ymhen blwyddyn fel mae pwysau gwaith y pwyllgorau gwahanol yn sefydlogi.

ATODIAD 1

| | |
|---|---|
| CYFARFOD | PWYLLGOR UWCH GYFLOGAU AELODAU |
| DYDDIAD | 22 IONAWR 2013 |
| PWNC | CYFLOGAU AELODAU |
| PWRPAS | Y PWYLLGOR I YSTYRIED Y WYBODAETH A CHREU ARGYMHELLION |
| AWDUR | Vera Jones<br>Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd |

**CEFNDIR**

8. Penderfynodd y Cyngor yn ei gyfarfod ar y 17eg o Fai, 2012 i ddyrannu 16 o'r 18 uwch - gyflog sy'n bosib eu dyrannu i aelodau. Dyrannwyd yr uwch-gyflogau fel a ganlyn -
   - Arweinydd y Cyngor a hyd at 9 aelod o'r Cabinet (gan gynnwys unrhyw Ddirprwy Arweinydd),
   - Cadeiryddion y 3 Pwyllgor Craffu,
   - Cadeiryddion y Pwyllgor Archwilio, Pwyllgor Cynllunio a Phwyllgor Trwyddedu.

9. Yn ei gyfarfod ar y 6ed o Ragfyr, 2012 penderfynodd y Cyngor

*"ddyrannu uwch gyflog i Arweinydd yr wrthblaid fwyaf am weddill blwyddyn bresennol y Cyngor"*

Golyga hyn fod 17 o'r 18 uwch-gyflog felly wedi eu dyrannu.

10. Yn yr un cyfarfod, penderfynodd y Cyngor hefyd i

*"sefydlu pwyllgor arbennig gydag aelodaeth o'r fainc gefn a ddim i gynnwys cadeiryddion pwyllgorau, ar sail cydbwysedd gwleidyddol, i edrych ar elfen gwaith cadeiryddion y pwyllgorau eraill a chyflwyno argymhelliad i'r Cyngor ar 28 Chwefror 2013".*

11. I atgoffa'r aelodau, mae pum dosbarth o aelodau sy'n gymwys i dderbyn uwch gyflog, sef: Arweinydd y Cyngor, Dirprwy Arweinydd y Cyngor, Aelod o'r Cabinet, Cadeirydd Pwyllgor ac Arweinydd Grŵp Gwleidyddol. Noder y dyrennir yr uwch gyflogau i swyddi penodol. Dim ond hawl i un uwch gyflog sydd gan unigolyn.

12. Y pwyllgorau eraill na thelir uwch gyflog i'r Cadeirydd ar hyn o bryd yw

- Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
- Pwyllgor Iaith
- Pwyllgor Apeliadau Cyflogaeth
- Pwyllgor Pensiynau
- Pwyllgorau Ardal

13. Yn adroddiad y Cyngor, argymhellwyd y dylid ystyried y ffactorau isod wrth ddod i benderfyniad ar ddyrannu'r uwch gyflog olaf.

- Pwysau gwaith
- Pwysigrwydd y rôl i gyd-aelodau
- Rôl arweiniol a datblygol y pwyllgor

**<u>GWYBODAETH AM Y PWYLLGORAU O DAN YSTYRIAETH</u>**

14. Cyflwynir gwybodaeth isod am bwysau gwaith, gofynion ar y Cadeirydd a rôl y Cadeirydd yn y pwyllgorau a nodi yn 5 uchod. Mae copi o gylch gorchwyl y pwyllgorau wedi eu cynnwys yn Atodiad A.

**15. Pwyllgor Apeliadau Cyflogaeth**

| | | |
|---|---|---|
| a | Niferoedd cyfarfodydd | Yn y cyfnod Mai 2012 hyd 8fed Chwefror 2013, Cynhaliwyd 10 cyfarfod.<br>Mae'r mwyafrif o'r cyfarfodydd yn gyfarfodydd diwrnod llawn (cychwyn o 9.30 tan 5) |
| b | Gofynion gan swyddogion y tu allan i gyfarfodydd y Pwyllgor | Yn gyffredinol, cynhelir sesiwn briffio byr (galwad ffon tua chwarter awr) gyda'r Cadeirydd yn y cyfnod ar ôl i'r swyddog ryddhau'r rhaglen ond cyn y cyfarfod.<br>Cynhelir sesiwn briffio byr ar ddiwrnod y cyfarfod hefyd i fynd dros faterion (Oddeutu chwarter awr eto).<br>Mynychu swyddfeydd y Cyngor i sicrhau fod y llythyr yn gywir a'i arwyddo yn dilyn achos. |
| c | Rôl y Cadeirydd | Cadeirio'r cyfarfod trwy<br>➢ Sicrhau chware teg i bob ochor<br>➢ Bod yn ddiduedd, agored a theg<br>➢ Bod yn gadarn, ond teg i bob 'ochor'<br>➢ Gwneud i bobl deimlo'n gartrefol<br>➢ Bod yn glir o'r drefn a chadw trefn<br>Noder hefyd y bydd penderfyniad y Pwyllgor fesul apêl yn cael ei adrodd yn gryno ar lafar gan y Cadeirydd ar ddiwedd y gwrandawiadau unigol a bod llythyr yn cadarnhau y penderfyniad (penderfyniad nad sydd o anghenraid yn plesio'r apeliwr) yn mynd yn enw'r Cadeirydd |
| ch | Gofynion pellach y tu allan i gyfarfodydd y Pwyllgor | Nid oes gofynion teithio/hyfforddiant/mynychu cyfarfodydd traws-Gymru. |

**16. Pwyllgor Iaith**

| | | |
|---|---|---|
| a | Niferoedd cyfarfodydd | Mae 4 cyfarfod o'r Pwyllgor wedi ei raglennu yn flynyddol.<br>Yn ychwanegol, cynhelir oddeutu 2 gyfarfod o is-grwpiau yn flynyddol.<br>Cyfarfodydd is-grwpiau tua hanner diwrnod ar gyfartaledd |
| b | Gofynion gan swyddogion y tu allan i gyfarfodydd y Pwyllgor | Mae'r Pwyllgor wedi newid ers yr etholiad o fod yn is-bwyllgor iaith yn flaenorol, i fod yn Bwyllgor iaith y Cyngor bellach.<br>Mae'r maes yn un sy'n gweld cryn newidiadau ar hyn o bryd (e.e. y cyd destun statudol: Mesur Iaith, sefydlu swyddfa Comisiynydd y Gymraeg, Safonau Iaith. Bydd hefyd angen dadansoddi ac ymgymryd ag oblygiadau'r data iaith sy'n codi o Gyfrifiad 2011) ac felly mae'n anodd rhagweld/amcangyfrif beth yn union fydd y gofynion ar y Pwyllgor a thu allan i'r Pwyllgor. Yn gyfredol, cynhelir cyfarfod gyda'r Cadeirydd a'r Swyddog perthnasol er mwyn cael trafodaeth fanwl i flaenoriaethu materion a rhesymoli'r hyn sy'n cael ei gynnwys ar agenda'r Pwyllgor.<br>Cynhelir sesiwn briffio byr o flaen y ar ddiwrnod y cyfarfod hefyd i fynd dros faterion. |
| c | Rôl y Cadeirydd | Cadeirio'r cyfarfod trwy<br>➢ Drafod, adnabod, blaenoriaethu a rhesymoli'r materion i'w cynnwys ar yr agenda er mwyn sicrhau 6 rhoddir sylw i'r materion strategol pwysicaf<br>➢ Cadw'r balans rhwng y materion a'r blaenoriaethau strategol mawr a'r materion / pryderon lleol<br>➢ Ymdrin â materion / pryderon neu gwynion mwy lleol eu natur. |
| ch | Gofynion pellach y tu allan i gyfarfodydd y Pwyllgor | Mae galwadau ar y Cadeirydd y tu allan i gyfarfodydd penodol y Pwyllgor, megis<br>➢ Mynychu cyfarfodydd Cymru gyfan i dderbyn gwybodaeth ddiweddaraf am ofynion statudol neu ddatblygiadau ar wahanol faterion e.e. safonau iaith drafft, cyhoeddi gwybodaeth y cyfrifiad ayyb<br>➢ Ymateb i faterion penodol sy'n codi e.e. o gwynion<br>Mae'n anodd iawn amcangyfrif yr amser sy'n mynd ar yr uchod gan fod a) galwadau a datblygiadau cenedlaethol yn amrywio (potensial o ofynion uchel yn |

| | | |
|---|---|---|
| | | sgil y datblygiadau yn y maes), a gall materion /cwynion amrywio yn ddybryd yn eu hyd a'u lled. |

**17. Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd**

| | | |
|---|---|---|
| a | Niferoedd cyfarfodydd | Yn y cyfnod Mai 2012 hyd ddiwedd Ionawr 2013, cynhaliwyd 3 cyfarfod o'r Pwyllgor. Yn ogystal, cynhaliwyd 2 gyfarfod o'r is-grŵp hyfforddiant. |
| b | Gofynion gan swyddogion y tu allan i gyfarfodydd y Pwyllgor | Yn gyfredol, cynhelir cyfarfod gyda'r Cadeirydd a'r Swyddog perthnasol i drafod yn fanwl, adnabod a blaenoriaethu materion i gael eu cynnwys ar agenda'r Pwyllgor.<br>Yn ogystal, trafodir yr adroddiadau sydd wedi eu llunio (gan swyddogion neu gan y Cadeirydd) cyn rhyddhau'r papurau Pwyllgor.<br>Cynhelir sesiwn briffio byr ar ddiwrnod y cyfarfod hefyd i fynd dros faterion.<br>Galwadau ffon ad-hoc yn ddibynnol ar faterion sy'n codi. |
| c | Rôl y Cadeirydd | Cadeirio'r cyfarfod trwy<br>➢ Drafod, blaenoriaethu a rhesymoli'r materion i'w cynnwys ar yr agenda er mwyn sicrhau y rhoddir sylw i'r materion strategol pwysicaf<br>➢ Adnabod materion o bwys i'r holl aelodau sy'n deillio o sylwadau / cwynion gan gyd- aelodau am faterion sydd o fewn sgôp y Pwyllgor.<br>➢ Cyflwyno adroddiadau gan y Cadeirydd i'r Pwyllgor gan gynnig argymhellion ar ddatrysiadau a datblygiadau i'r dyfodol fydd o fudd yn cynorthwyo aelodau etholedig i allu ymateb yn eu gwaith o wasanaethau pobl Gwynedd.<br>➢ Ymdrin â materion sydd o flaenoriaeth strategol a materion sy'n peri pryder yn lleol<br>➢ Bod yn deg a chytbwys wrth ystyried gwahanol faterion |
| ch | Gofynion pellach y tu allan i gyfarfodydd y Pwyllgor | Mae galwadau ar y Cadeirydd y tu allan i gyfarfodydd penodol y Pwyllgor, megis<br>➢ Trafod a derbyn sylwadau gan gyd-aelodau yn ei rôl fel Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethu Democrataidd<br>➢ Mynychu cyfarfodydd Cymru gyfan i drafod goblygiadau datblygiadau statudol a chynrychioli'r Cyngor a'r aelodau etholedig yn ystod y cyfarfodydd hyn. (Cynhelir y cyfarfodydd 2 waith y flwyddyn). Bydd y |

| | | |
|---|---|---|
| | | wybodaeth a gesglir yma yn cynorthwyo'r Cadeirydd wrth adnabod materion i Wynedd.<br>Mae'n anodd iawn amcangyfrif ar hyn o bryd beth fydd y gofynion ar gyfartaledd y Cadeirydd gan ei fod yn faes newydd a datblygol ac felly gofynion yn debygol o gynyddu. |

**18. Pwyllgor Pensiynau**

| | | |
|---|---|---|
| a | Niferoedd cyfarfodydd | Cynhelir 4 cyfarfod o'r Pwyllgor Pensiynau yn flynyddol. Yn ogystal, cynhelir 4 cyfarfod chwarterol pan fo aelodau'r Pwyllgor yn gweld 'fund managers' gwahanol pob tro. Noder fod 2 o'r cyfarfodydd hyn yn tueddu i fod yng Nghaernarfon, a'r ddau arall yn Llundain. |
| b | Gofynion gan swyddogion y tu allan i gyfarfodydd y Pwyllgor | Gweler uchod ynghylch cyfarfodydd chwarterol a'r gofynion teithio i Lundain. |
| c | Rôl y Cadeirydd | Cadeirio'r cyfarfod trwy'r trefniadau arferol. |
| ch | Gofynion pellach y tu allan i gyfarfodydd y Pwyllgor | Mae'n ofynol i'r Cadeirydd ynghyd â phob aelod o'r Pwyllgor i dderbyn 3 diwrnod llawn o hyfforddiant penodol cyn gallu bod yn gweithredu yn llawn ar y pwyllgor hwn.<br>Noder hefyd fod y gofynion teithio yn golygu fod y Cadeirydd ac aelodau'r pwyllgor yn gorfod neilltuo amser i aros dros nos cyn y cyfarfodydd chwarterol sy'n gorfod cael eu cynnal yn Llundain. |

**19. Pwyllgorau Ardal**

Noder fod Pwyllgor Ardal yn Arfon, Meirionydd a Dwyfor a bod Cadeirydd i bob un o'r tri Pwyllgor. Gan mai un uwch-gyflog sy'n parhau yn weddill, byddai'n anodd iawn dewis Cadeirydd Pwyllgor Ardal penodol i dderbyn yr uwch-gyflog sy'n weddill. Mae hyn hefyd oll yn ddibynol ar yr adolygiad o rôl y pwyllgorau ardal sydd ar y gweill ac sy'n debog o adrodd i'r Cyngor llawn ym mis Chwefror.

| | | |
|---|---|---|
| a | Niferoedd cyfarfodydd | 4 cyfarfod fesul pwyllgor wedi eu rhaglennu yn flynyddol yn gyfredol. |
| b | Gofynion gan swyddogion y tu allan i gyfarfodydd y Pwyllgor | Adnabod, trafod a blaenoriaethu materion i fod ar yr agenda y cyfarfodydd ardal. |
| c | Rôl y Cadeirydd | Cadeirio'r cyfarfod trwy<br>➢ Adnabod a thrafod y ceisiadau ar gyfer materion |

| | | |
|---|---|---|
| | | penodol i dderbyn sylw wrth lunio'r agenda<br>➢ Cadw trefn yn ystod y cyfarfod<br>➢ Sicrhau fod y cyfarfod yn gweithredu yn unol â'i gylch gorchwyl. |
| ch | Gofynion pellach y tu allan i gyfarfodydd y Pwyllgor | Nid oes gofynion teithio / hyfforddiant / mynychu cyfarfodydd traws-Gymru yn sgil y rôl yma. |

**ARGYMHELLIAD**

20. Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried y wybodaeth a gyflwynwyd uchod a llunio argymhelliad i'w gyflwyno i'r Cyngor Llawn yn ei gyfarfod ar yr 28ain Chwefror 2013.

ATODIAD A

Amgaeir gopi o gylchoedd gorchwyl y gwahanol Pwyllgorau o Gyfansoddiad y Cyngor.

# PWYLLGOR APEL CYFLOGAETH

- **Ceir manylion am gyfansoddiad y pwyllgor hwn yn Erthygl 8, Rhan 2 y Cyfansoddiad.**

- **Mae'r tabl isod yn rhestri'r swyddogaethau penodol sydd wedi eu dirprwyo i'r Pwyllgor. Yn y drydedd golofn nodir os yw'r swyddogaeth wedi ei dirprwyo ymlaen i Brif Swyddog. Ceir manylion pellach am hawliau'r Prif Swyddog, gan gynnwys unrhyw gyfyngiad ar ei hawl i weithredu, yn y Cynllun Dirprwyo i Swyddogion (Rhan 3 o'r Cyfansoddiad).**

| **Swyddogaeth** | **Darpariaeth mewn Deddf neu Offeryn Statudol** | ***Dirprwyo -*** *(yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau yn y Cynllun Dirprwyo i Swyddogion)* |
|---|---|---|
| Penderfynu ar apeliadau gan aelodau o'r staff yn erbyn camau disgyblaeth a gymerwyd yn eu herbyn yn sgil camymddwyn difrifol, ac eithrio athrawon, darlithwyr ac arweinyddion ieuenctid | | |
| Penderfynu ar apeliadau gan aelodau o'r staff yn erbyn penderfyniadau ar geisiadau i ailraddio neu ymddeol yn gynnar | | |
| Penderfynu ar apeliadau yn sgil cwynion gan unigolion neu grwpiau o'r staff am unrhyw reswm ynglŷn â'u cyflogaeth ac eithrio'r materion hynny sy'n disgyn i faes unrhyw bwyllgor arall | | |

# PWYLLGOR IAITH

☐ **Ceir manylion am gyfansoddiad y pwyllgor hwn yn Erthygl 8, Rhan 2 y Cyfansoddiad.**

☐ **Mae'r tabl isod yn rhestri'r swyddogaethau penodol sydd wedi eu dirprwyo i'r Pwyllgor.**
**Yn y drydedd golofn nodir os yw'r swyddogaeth wedi ei dirprwyo ymlaen i Brif Swyddog. Ceir manylion pellach am hawliau'r Prif Swyddog, gan gynnwys unrhyw gyfyngiad ar ei hawl i weithredu, yn y Cynllun Dirprwyo i Swyddogion (Rhan 3 o'r Cyfansoddiad).**

| **Swyddogaeth** | **Darpariaeth mewn Deddf neu Offeryn Statudol** | ***Dirprwyo -*** *(yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau yn y Cynllun Dirprwyo* i *Swyddogion)* |
|---|---|---|
| Goruchwylio gweithrediad Cynllun Iaith Cyngor Gwynedd | | |
| Pennu cyfeiriad strategol a chydymffurfiaeth mewn ymateb i'r Safonau Iaith a osodir gan Gomisiynydd y Gymraeg gan roi sylw i waith y Cyngor ac unrhyw waith partneriaeth neu gydweithio | | |
| Derbyn gwybodaeth ar faterion yn ymwneud a'r Gymraeg yn unol â'r angen | | |

# PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

**Ceir manylion am gyfansoddiad y pwyllgor hwn yn Erthygl 8 yn Rhan 2 y Cyfansoddiad.**

**Mae'r tablau isod yn rhestru'r swyddogaethau penodol sydd wedi eu dirprwyo i'r Pwyllgor. Yn y drydedd golofn nodir os yw'r swyddogaeth wedi ei dirprwyo ymlaen**
**i Brif Swyddog. Ceir manylion pellach am hawliau'r Prif Swyddog, gan gynnwys unrhyw gyfyngiad ar ei hawl i weithredu, yn y Cynllun Dirprwyo i Swyddogion (Rhan 3 o'r Cyfansoddiad).**

| **Swyddogaeth** | **Darpariaeth mewn Deddf neu Offeryn Statudol** | ***Dirprwyo -*** *(yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau yn y Cynllun Dirprwyo* i *Swyddogion)* |
|---|---|---|
| Dynodi pennaeth gwasanaethau democrataidd y Cyngor Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 | | |
| Adolygu pa mor ddigonol yw'r ddarpariaeth gan yr awdurdod o ran staff, llety ac adnoddau eraill i gyflawni swyddogaethau gwasanaethau democrataidd. Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 | | |
| Llunio adroddiad a gwneud argymhellion i'r awdurdod mewn perthynas â'r ddarpariaeth honno. Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011. | | |

# PWYLLGOR PENSIYNAU

- **Ceir manylion am gyfansoddiad y pwyllgor hwn yn Erthygl 8 yn Rhan 2 y Cyfansoddiad.**
- **Mae'r tablau isod yn rhestru'r swyddogaethau penodol yn Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau)(Cymru) 2007 (sef swyddogaethau nad ydynt i fod yn gyfrifoldeb i Weithrediaeth awdurdod) sydd wedi eu dirprwyo i'r pwyllgor. Mae'r penawdau, rhifau a llythrennau yn cyd-fynd gyda'r hyn sydd yn y Rheoliadau.**
- **Yn y drydedd golofn nodir os yw swyddogaeth wedi ei dirprwyo ymlaen i brif swyddog. Ceir manylion pellach am hawliau'r prif swyddog, gan gynnwys unrhyw gyfyngiad am yr hawl i weithredu yn y Cynllun Dirprwyo i Swyddogion yn Rhan 3 o'r Cyfansoddiad.**

## SWYDDOGAETHAU NA ALL FOD YN GYFRIFOLDEB I'R WEITHREDIAETH

## F. Swyddogaethau sy'n ymwneud â phensiynau a.y.b.

| **Swyddogaeth** | **Darpariaeth mewn Deddf neu Offeryn Statudol** | ***Dirprwyo -*** *(yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau yn y Cynllun Dirprwyo i Swyddogion)* |
|---|---|---|
| 1. Swyddogaeth sy'n ymwneud â phensiynau llywodraeth leol, a.y.b. | Rheoliadau o dan adran 7, 12 neu 24 o Ddeddf Blwydd-dal 1972 (p.11) | |
| 2. Swyddogaethau o dan Gynlluniau Pensiwn presennol mewn perthynas â phersonau a gyflogir gan awdurdodau tân ac achub yn unol ag Adran 1 Deddf Gwasanaethau tân ac Achub 2004 | Adrannau 34 a 36 o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 | |